Barn Comisiynydd Plant Cymru ar Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y cyd-bwyllgor: 'Asesu effaith penderfyniadau cyllideb'

Mae'r nodyn hwn yn sylw ar ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y cyd-bwyllgor. Nid yw'n ceisio ailadrodd na dyblygu'r dystiolaeth a roddwyd yn ysgrifenedig ac yn bersonol i sesiynau'r cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd 2018.

Rwy'n falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'm swyddfa a swyddfeydd comisiynwyr statudol eraill (argymhelliad 1) 'i ddarparu mwy o eglurder ynghylch diben a chanlyniadau disgwyliedig y broses SIIA'. Rwy'n gobeithio bod modd yn awr i'r gwaith hwn gychwyn ar gyflymder fydd yn sicrhau bod proses pennu cyllideb 2020-21 yn destun y craffu a ddeuai yn sgîl SIIA cynhwysfawr.

Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r cyd-bwyllgor, byddwn i'n disgwyl i Asesiad Effaith cynhwysfawr ar Hawliau Plant (CRIA) gael ei gwblhau a'i gyhoeddi *ochr yn ochr* â'r gyllideb. Fel rhan o'i gylch gorchwyl dylai'r CRIA hwn gynnwys pob elfen o'r gyllideb sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhelliad 2 trwy ddweud ei bod yn teimlo bod angen 'rhoi ystyriaeth bellach i weld a fyddai hynny o gymorth o ran hygyrchedd, dealltwriaeth a thryloywder'. Yn ôl Llywodraeth Cymru, y rheswm am hynny yw y gallai cyhoeddi'r asesiadau effaith unigol mewn man canolog yn hytrach nag ochr yn ochr â'r dogfennau perthnasol beri dryswch i'r rhai sy'n cyrchu'r gyfres o ddogfennau a gyhoeddir yng nghyswllt penderfyniad neu bolisi penodol.

Mewn perthynas â darparu asesiadau effaith unigol mewn lleoliad canolog, a fyddai'n cynnwys Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant, nid wyf yn cael bod esboniad Llywodraeth Cymru yn ddigonol. Os yw'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi asesiadau unigol ochr yn ochr â dogfennau polisi/penderfyniadau, rwy'n ansicr pam na fyddai'n bosibl cyhoeddi'r asesiadau unigol hynny mewn man canolog. Rwy'n credu y byddai'r cam hwn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i dryloywder gan Lywodraeth Cymru, ac yn rhoi cyfle i minnau ac eraill ymgysylltu â nhw mewn modd adeiladol ynghylch canfyddiadau eu hasesiadau effaith unigol. Yn fy marn i, nid yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon tryloyw.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar weinidogion yng Nghymru i ystyried sut mae'r penderfyniadau a wnânt yn effeithio ar hawliau plant. Ar hyn o bryd, ni roddir digon o bwys ar y ddyletswydd honno yn y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol, er gwaethaf y ffaith bod Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yn rhan o'r broses honno o dan Gynllun Hawliau Plant y Llywodraeth.

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad i adolygu'r dull o ymdrin â'r SIIA a'r IIA (argymhelliad 3). Rwy'n falch bod adolygiad yr IIA yn ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Byddwn i'n disgwyl i randdeiliaid allanol, gan gynnwys fy swyddfa, gael cynnig cyfle i gyfrannu at y *ddau* adolygiad yma.

Yn benodol yng nghyswllt IIAs, yn ein profiad ni, mae anghysondeb o ran i ba raddau mae IIA yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â dogfennau. Er enghraifft, gall rhai ymgyngoriadau gan Lywodraeth Cymru gyhoeddi dogfen grynodeb fer sy'n cynnwys un neu ddwy o frawddegau perthnasol i'r effaith ar blant a phobl ifanc a hawliau plant, tra bod eraill yn darparu dogfen lawn yr Asesiad Effaith Integredig adeg lansio'r ymgynghoriad, sy'n cynnwys adran CRIA wedi'i chwblhau (atodiad A) ochr yn ochr ag asesiadau effaith eraill.

Lle cyhoeddir CRIAs fel rhan o IIA, ochr yn ochr â dogfennau, neu eu darparu ar gais, rydym ni'n dal i bryderu am amrywiaeth eu hansawdd, ac anghysondeb o ran sut maen nhw'n cymhwyso proses CRIA Llywodraeth Cymru, fel y rhagnodwyd yn eu Cynllun Hawliau Plant. Rydym wedi gweld enghreifftiau o CRIAs sydd ddim mewn gwirionedd yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol ynghylch sut bydd y polisi'n cael effaith ar blant a phobl ifanc neu a fydd hynny'n digwydd, heb sôn am geisio cyflawni proses lawnach.

Rwy'n pryderu nad yw'r ymchwil a gomisiynwyd, y cyfeiriwyd ati yn argymhelliad 5, wedi cychwyn eto, a byddwn wedi disgwyl cynnydd erbyn hyn er mwyn i ni gymhwyso rhai gwersi a ddysgwyd i broses pennu cyllideb 2020-21. Byddwn i wedi hoffi gweld y broses hon yn cychwyn yn gyflymach, ond rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddechrau'r gwaith ymchwil erbyn mis Medi. Rwy'n edrych ymlaen at ymwneud â Llywodraeth Cymru ac eraill i symud hyn ymlaen, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n gwella ar hyd y broses o bennu'r gyllideb sydd ar droed.